# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 17.07.18

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Angela Russell ac Edgar Wyn Owen

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Rhian Jones (Swyddog Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO - Star Kebabs, Bangor**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Mehmet Kabadayi a'i fab Emre Kabadayi

**Eraill a wahoddwyd:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Gwynedd a Môn, Heddlu Gogledd Cymru)
PS2430 Dana Baxter

a) **Adroddiad ac argymhelliad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am newid amodau i drwydded mewn perthynas â goruchwylwyr drysau a gytunwyd gan y Pwyllgor hwn yn dilyn adolygiad o'r drwydded yn 2012 gan Heddlu Gogledd Cymru. Eglurwyd bod yr eiddo wedi ei drwyddedu ar gyfer gwerthu lluniaeth hwyr y nos, 7 diwrnod yr wythnos ac ar hyn o bryd yn amodol bod goruchwylwyr drysau, sydd yn gofrestredig gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch yn bresennol ar yr eiddo o 23:00 nos Iau, Gwener a Sadwrn hyd at amser cau'r eiddo: yn ogystal ar nos Sul cyn dydd Llun Gŵyl y Banc.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Nodwyd, wedi cyfnod ymgynghori ar y cais, derbyniwyd ymateb gan Heddlu Gogledd Cymru. Nid oedd yr Heddlu yn gwrthwynebu'r bwriad i gyflogi goruchwylwyr drysau o hanner nos ymlaen ar benwythnosau a nos Sul Gŵyl y Banc. Er hynny, nid oedd yr Heddlu yn cefnogi bwriad yr eiddo i agor hanner awr yn ychwanegol ar nos Iau.

Amlygwyd nad oedd yr ymgeisydd wedi manylu ar yr angen i gael hanner awr ychwanegol ar nos Iau yn ei ffurflen gais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, cadarnhaodd yr ymgeisydd bod y cais am estyniad oriau lluniaeth hwyr yn nos ar ddydd Iau yn gamgymeriad. Er iddo geisio am addasu oriau agor ar nos Fercher i 3:30am amlygodd y Cadeirydd nad oedd hyn i'w drafod ac os byddai angen gwneud addasiad i oriau'r drwydded yna cynghorwyd yr ymgeisydd byddai rhaid gwneud cais o'r newydd.

Yng nghyd-destun goruchwylwyr drysau eglurodd nad oedd angen goruchwylwyr drysau ar nos Iau gan fod yr eiddo yn cau am hanner nos.

c) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, cadarnhaodd Swyddog o'r Heddlu nad oedd yn gwrthwynebu lleihau oriau goruchwylwyr drysau ar y nos Iau. Amlygodd bod problemau wedi bod yn y gorffennol lle cyflwynwyd tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau adolygiad o'r drwydded eiddo gydag amodau ychwanegol mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng, a goruchwylwyr drysau. Wrth gyflwyno eu cais am adolygiad, roedd gan yr Heddlu dystiolaeth o 18 o achosion o drosedd ac anrhefn yn gysylltiedig â'r eiddo yn hwyr y nos. Nodwyd bod yr Heddlu, yn Medi 2012 wedi erlyn deilydd y drwydded am weithredu tu hwnt i oriau gweithgareddau trwyddedig oedd wedi eu cynnwys ar y drwydded.

Amlygwyd, mewn cais gan yr ymgeisydd i amrywio'r drwydded ym Mawrth 2013, nodwyd yr Heddlu fod yr amodau ychwanegol, mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng a goruchwylwyr drysau, wedi bod yn hynod effeithiol gan sicrhau fod yr eiddo yn cydymffurfio gyda'r amcanion Trwyddedu, er yn ddiweddar i'r ymgeisydd fethu a rhannu tystiolaeth oddi ar y system teledu cylch cyfyng. Cafwyd eglurhad bod problemau llawr lwytho gwybodaeth a phwysleisiwyd mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd oedd darparu gwybodaeth ar gais yr Heddlu neu Swyddogion Trwyddedu. Amlygwyd yn glir yn amodau'r drwydded bod angen storio lluniau am o leiaf 31 diwrnod.

ch) Wrth ystyried y cais ystyriwyd adroddiad y Swyddog Trwyddedu, y ffurflen gais, y sylwadau ysgrifenedig a ddaeth i law oddi wrth y partïon gyda diddordeb ynghyd â'r sylwadau llafar a gyflwynwyd gan yr holl bartïon yn bresennol yn y gwrandawiad. Bu i'r Is-bwyllgor hefyd ystyried Polisi Trwyddedu'r Cyngor, arweiniad y Swyddfa Gartref ynghyd ag egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003

- Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais am wyriad fel y'i diwygiwyd.**

**Gwiriwyd y drwydded fel a ganlyn:**

1. **Ni fydd gofyn i'r eiddo ddarparu goruchwyliwr drws wedi ei gofrestru gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch (Security Industry Authority – SIA) ar Ddydd Iau.**

**2. Bydd yr eiddo yn darparu goruchwyliwr drws wedi ei gofrestru gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch o 00:00 tan amser cau ar nos Wener a Sadwrn, yn ogystal â nos Sul cyn Gŵyl Banc.**

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r sylwadau canlynol:

Roedd 3 rhan i gais gwreiddiol yr ymgeisydd:

1. Estyniad amser mewn perthynas â darparu Lluniaeth Hwyr yn Nos ar nos Iau i 03:30.
2. Gwyriad fel nad oes gofyn i'r eiddo ddarparu goruchwyliwr drws Awdurdod Diwydiant Diogelwch (Security Industry Authority – SIA) ar ddydd Iau.
3. Gwyriad fel bod darpariaeth goruchwyliwr drws Awdurdod Diwydiant Diogelwch (Security Industry Authority – SIA) ar nos Wener, Sadwrn a Sul cyn Gŵyl Banc rhwng 00:00 ac amser cau.

Yn y gwrandawiad fe gadarnhaodd yr ymgeisydd bod y cais am estyniad oriau lluniaeth hwyr yn nos ar ddydd Iau yn gamgymeriad. Yn yr amgylchiadau, tynnwyd y darn hwn o'r cais yn ôl ac ni roddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth bellach iddo. Amlygwyd hefyd fodd bynnag na fyddai'r Is-bwyllgor wedi gallu ystyried y darn hwn o'r cais, nag unrhyw gais i ymestyn oriau o dan gais ar gyfer gwyriad o dan adran 35 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003, gan y byddai cais o'r fath yn anghyfreithlon o dan adran 36(3) o'r un Ddeddf.

Yn sgil yr eglurhad bod dim cais am estyniad amser ar ddydd Iau, ac yn sgil cadarnhad yr Heddlu bod dim gwrthwynebiad i weddill y cais, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:10pm a daeth i ben am 3:10pm